# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020 AM 5.00PM

---

PRESENNOL:

Cynghorydd J. Simmonds - Maer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, A.P. Angel, J. Bevan, C. Bezzina, L.J. Binding, A. Collis, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A.G. Higgs, A. Hussey, M.P. James, V. James, L. Jeremiah, Mrs B.A. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G.D. Oliver, B. Owen, Mrs T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams a B. Zaplatynski.

Ynghyd â'r canlynol:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau), S. Harris (Pennaeth Gwella Busnes, a Swyddog Cyllid ac Adran 151), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**GWE-DDARLLEDIAD A THREFNIADAU PLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rhai oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddent ar gael i'r cyhoedd ar ffurf byw ac archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy'r system bleidleisio electronig.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C. Andrews, P.J. Bevan, S. Cook, E. Forehead, D. Hardacre, G. Johnston, S. Kent, D.W.R. Preece, D. Price ac M. Sargent.

**2. CYHOEDDIADAU’R MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y llu o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a’r Dirprwy Faer wedi’u cynnal ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd at y Noson Cwis a Chyri sydd i'w chynnal yn fuan, gyda’r elw’n mynd i Elusennau’r Maer.

**3. I DDERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)**

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Mann ddeiseb ar ran trigolion lleol i Droi Goleuadau Stryd Caerffili Yn Ôl Ymlaen a chyflwynodd y Cynghorydd J. Roberts ddeiseb gan Gynghorydd Cymunedol Cwm Aber yn erbyn Datgomisiynu'r Camera TCC ym mhentrefi Senghenydd ac Abertridwr fel rhan o Gynigion Cyllideb Ddrafft 2020/21.

**4. CYFLWYNO GWOBRAU**

**Ysgol Idris Davies – Lansio ffilm Ymwybyddiaeth Benthycwyr Arian Didrwydded**

Hysbysodd yr Aelod Cabinet dros Gartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth bod disgyblion o Ysgol Idris Davies, trwy weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Rhenti Awdurdodau, wedi lansio eu ffilm ymwybyddiaeth benthycwyr arian didrwydded yn ddiweddar.

Sicrhaodd y Bartneriaeth £9,000 o gyllid gan Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru i gefnogi prosiectau lleol sy'n codi ymwybyddiaeth o fenthyca gan fenthycwyr arian didrwydded.

Gweithiodd Ysgol Idris Davies gyda Dean Richards, ysgrifennwr caneuon lleol, i ddatblygu a chynhyrchu ffilm fer a chân yn tynnu sylw at effeithiau negyddol benthycwyr arian didrwydded. Yna cafodd y ffilm, a fydd yn cael ei defnyddio er mwyn helpu i addysgu pobl ifanc am gyllidebu ac osgoi dyled, ei dangos i'r Cyngor.

Gwahoddwyd Richard Owen – Y Prifathro, Davina Parfitt – Pennaeth y Cyfnod Canol a’r disgyblion Hollie Morgan a Ben Jones i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu prosiect.

**Gwobrau’r Sefydliad Tirwedd**

Hysbysodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Amgylchedd a Chymdogaeth, bod yr Uwchgynllun ar gyfer Cynnal Tirwedd Caerffili wedi ennill y Wobr Cynllunio Tirwedd Leol yn Seremoni Wobrwyo'r Sefydliad Tirwedd Cenedlaethol.

Arweiniwyd yr astudiaeth, a gomisiynwyd trwy Dîm Cynllunio Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Cefn Gwlad a Thirwedd, gan White Young Green a weithiodd gyda'r awdurdod a grwpiau cymunedol lleol i baratoi uwchgynllun tirwedd yn seiliedig ar egwyddorion Rheolaeth Cynaliadwy Adnoddau Naturiol. Mae'r astudiaeth yn edrych ar sut i wneud i'r dirwedd weithio'n galetach i ddefnyddwyr, gan wella gwytnwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd ac mae'n seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael i reoli'r dirwedd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r astudiaeth yn darparu set o gynigion uchelgeisiol y gellir eu cyflawni i hwyluso ymagwedd gynaliadwy a chydweithredol o reoli tirwedd a mynediad i'r cyhoedd.

Gwahoddwyd Phil Griffiths, Rheolwr Strategaeth Mannau Gwrydd a Mynewentydd yr Awdurdod, Lee Morris o White Young Green a Jayne Garland o'r Grŵp Cymunedol i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu gwobr.

**Gwobrau Cymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol Cymru**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y wobr ac roedd yn falch o gyhoeddi bod dwy Aelod o’r Staff Arlwyo Ysgolion wedi’u coroni’n ddiweddar fel ‘sêr disglair’ yng Ngwobrau Cymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol Cymru.

Mae Phyllis Levi y Cogydd â Gofal yn Ysgol Gynradd y Coed Duon wedi gweithio i'r gwasanaethau arlwyo am dros 40 mlynedd. Mae ei thîm yn darparu dros 1,000 o brydau bwyd yr wythnos ac mae Phyllis hefyd yn gyfrifol am reoli'r Clwb Brecwast. Mae Phyllis yn berson cynnes a gofalgar gyda chalon fawr, ac mae ganddi bersonoliaeth heintus sy'n rhoi gwên ar wyneb pawb sy'n amlwg yn y cyswllt agos sydd ganddi gyda disgyblion.

Mae Joyce Handford yn Gymhorthydd Clwb Brecwast ac Arlwyo yn Ysgol Gynradd Coed y Brain ac mae wedi gweithio yn yr ysgol am dros 41 mlynedd. Mae Joyce yn gweithio'n galed iawn, gan fynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddi i wneud y gwasanaeth yn llwyddiant. Mae hi'n annog y disgyblion i roi cynnig ar bethau newydd a chyda'i hagwedd gyfeillgar, siriol mae'n helpu i wneud iddynt deimlo'n arbennig ac yn rhan o'i theulu ehangach.

Galwyd ar y ddwy wraig arbennig iawn yma, sy'n angerddol am eu gwaith, i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu gwaith arbennig.

**GWOBRAU GLANHAU ADEILADAU APSE**

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd a Chymdogaeth fod Adran Glanhau Adeiladau'r Cyngor wedi ennill gwobr am y 'Perfformiwr mewn Glanhau Adeiladau sydd wedi Gwella Fwyaf' yng Ngwobrau'r Gymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddar. Mae'r wobr hon yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a roddwyd ar waith gan y tîm, sy'n ymwneud â meysydd fel ansawdd perfformiad, cost, hyrwyddo rhagoriaeth ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

Galwyd ar Julie Howe, Sharon Tasker, Alison Greenaway, Kelly Thomas a Sharon Smith i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu gwobr.

**PRIFFYRDD APSE**

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Cludiant a Chynaliadwyedd mai Adran Briffyrdd y Cyngor oedd wedi ennill gwobr y Perfformiwr sydd wedi Gwella Fwyaf yn y categori Priffyrdd Ffyrdd a Chynnal a Chadw Gaeaf yng Ngwobrau diweddar Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r Tîm Priffyrdd yn gyfrifol am wneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle glanach, mwy diogel a gwyrddach i fyw ynddo ac mae'r staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau diogelwch ein trigolion.

Galwyd ar Joe Williams, Nathan Jones ac Ian Shephard i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu gwaith ardderchog.

**GWOBRAU YSGOL AC ADDYSG Y SOUTH WALES ARGUS**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg Wobrau Ysgol ac Addysg y South Wales Argus sy'n dathlu rhagoriaeth mewn ysgolion ac addysg ledled Gwent. Dewiswyd pum ysgol o Gaerffili, sef Ysgol Babanod Bedwas, Ysgol Gynradd Fochriw, Ysgol Gynradd Greenhill, Ysgol Idris Davies ac Ysgol Gyfun Sant Martin yn y rownd derfynol, gan ddangos yn glir lefel y rhagoriaeth sydd gennym yn yr ysgolion ac yn ein bwrdeistref.

Hysbyswyd y Cyngor bod Ysgol Gyfun Sant Martin wedi ennill y wobr am Ysgol Uwchradd y Flwyddyn ar ôl cael blwyddyn academaidd ragorol a chyflawni ei chyfres orau erioed o ganlyniadau. Enillodd Ysgol Gynradd Fochriw y wobr am yr Ysgol Gynradd Orau a chanmolwyd cynllun Heddlu Bach yr ysgol yn y seremoni sydd hefyd wedi'i henwebu ar gyfer gwobr ar lefel Cymru gyfan.

Roedd yr Aelod Cabinet hefyd yn falch iawn o gyhoeddi bod y beirniaid wedi pleidleisio'n unfrydol i goroni Ysgol Gynradd Fochriw fel Ysgol y Flwyddyn, sy'n dystiolaeth o waith caled ac ymroddiad staff, disgyblion a rhieni'r ysgol.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet yr holl ysgolion a gyrhaeddodd y rowndiau terfynol a rhoddodd gydnabyddiaeth hefyd i ymroddiad y staff yr ysgolion.

Galwyd ar Richard Owen a Davina Parfitt o Ysgol Idris Davies a Lisa Jones a Carole Pepperell o Ysgol Gynradd Greenhill w i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu llwyddiant wrth gyrraedd y rowndiau terfynol.

Galwyd ar Lee Jarvis, Steve Jones a Clare Manson o Ysgol Gyfun Sant Martin a Sharon Pasco a Michelle Harris o Ysgol Gynradd Fochriw i ddod ymlaen fel bod y Cyngor yn gallu cydnabod eu llwyddiant a'u gwobrau rhagorol.

**5. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cyhoeddodd y Cynghorydd D. Cushing fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 9 - Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor 2020/21, i'r graddau ei bod wedi gwneud cais o dan y cynllun yn ddiweddar ac y gallai felly elwa ohono ac y byddai'n gadael y Siambr pan drafodir y mater. Cofnodwyd y manylion llawn gyda'r eitem berthnasol.

**6. CYHOEDDIAD YR ARWEINYDD**

Amlinellodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Philippa Marsden ei chynlluniau, ei blaenoriaethau a'i dyheadau ar gyfer y dyfodol a chroesawodd bennod newydd i'r Awdurdod yn dilyn yr heriau sylweddol a wynebwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Gan fynd i mewn i 2020 gydag ymdeimlad newydd o rannu pwrpas a chyfeiriad, mynegodd yr Arweinydd y balchder a'r fraint a deimlai wrth ymgymryd â'i rôl newydd. Hysbyswyd yr aelodau bod y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr parhaol ar y gweill ac y byddai'r penodiad hwn yn helpu i gryfhau sefyllfa'r awdurdod ac yn dod â sefydlogrwydd a hyder i'r sefydliad wrth gychwyn ar siwrnai drawsnewidiol gyffrous.

Gan adlewyrchu ar nifer o gyflawniadau allweddol a llwyddiannau a gyflawnwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, chwaraewyd clip fideo byr er mwyn darlunio'n well y gwaith gwych y mae'r Cyngor hwn wedi bod yn ei wneud a'r effaith gadarnhaol a gafwyd ar fywydau pobl ledled y fwrdeistref. Mynegodd yr Arweinydd ei diolch i'r Tîm Cyfathrebu am gynhyrchu'r fideo ac i'r staff ar bob lefel ar draws y sefydliad am eu hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Ar ran yr holl Aelodau mynegodd ei diolch am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u balchder yn eu hymdrechion.

Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw newidiadau i gyfansoddiad y Cabinet ond bod meysydd portffolio wedi'u haddasu ac y byddai hynny'n rhoi ffocws o'r newydd i'r Cabinet wasanaethu anghenion y sefydliad a'r trigolion yn well. Yn ogystal ag adolygu rolau, byddai yna ostyngiad dros dro yn nifer yr Aelodau Cabinet o naw i wyth tan ddiwedd y flwyddyn ariannol a fyddai'n cyfrannu at arbedion ariannol yr awdurdod.

Wrth edrych i'r dyfodol, hysbyswyd yr Aelodau mai'r ffocws allweddol fyddai trawsnewid a rhaglen newydd gyffrous a fyddai'n dod â newid cadarnhaol ar draws y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol dros y blynyddoedd nesaf. Mae Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd yn fenter newydd uchelgeisiol a beiddgar. Esboniodd yr Arweinydd yr angen i'r Awdurdod wneud pethau'n wahanol, cofleidio arloesedd a grymuso staff, partneriaid a chymunedau i fod yn fentrus, yn ddewr ac yn wych yn y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau. Nodwyd y byddid yn edrych ar y defnydd o gronfeydd ariannol wrth gefn er mwyn buddsoddi yn y trawsnewid hwn a helpu i gyflawni'r newidiadau allweddol sydd wedi'u hadnabod fel rhan o adolygiadau gwasanaeth a chynlluniau i siapio lleoedd.

Esboniwyd y rôl ganolog a fyddai gan bob Aelod Etholedig unigol i'w chwarae wrth lunio'r cynlluniau hyn gan y byddai eu gwybodaeth am eu cymunedau yn hanfodol wrth ymgysylltu â phobl leol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.

Y blaenoriaethau allweddol fyddai Addysg, Tai, Adfywio a Thrawsnewid gan fod pŵer ac effaith y meysydd hyn pan fyddant wedi'u halinio yn sail i bopeth a wnawn fel Awdurdod. Ystyriwch fod plant yn byw mewn teuluoedd, teuluoedd yn creu cymunedau a chymunedau yn dod â gobaith ac uchelgais fel y gall pawb fod y gorau y gallant fod. Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r Arweinydd yn hyrwyddo'r achosion hyn ac fel undebwraig lafur angerddol byddai'n gwneud ei gorau glas i gynnal yr egwyddorion hynny ac yn benodol yn amddiffyn a hyrwyddo buddiannau gweithlu amrywiol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai’n parhau fel Hyrwyddwr Ieuenctid y Cyngor ac y byddai’n parhau i hyrwyddo a gwarchod buddiannau pobl ifanc ledled y fwrdeistref sirol y mae eu llais yn hanfodol bwysig yn y broses ddemocrataidd.

Wrth gloi, hysbyswyd yr Aelodau, er bod y setliad cyllideb ar gyfer 2020/21 yn fwy cadarnhaol na'r disgwyl gwreiddiol, ni all yr Awdurdod orffwys ar ei rwyfau ac y byddai angen adnabod a chyflawni arbedion lle bynnag yr oedd modd. Fodd bynnag, roedd y rhestr o gynigion arbedion drafft yn cael ei hadolygu yng ngoleuni'r rhagolwg mwy cadarnhaol a byddai adborth o'r broses ymgynghori yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw newidiadau a wneir.

Ailbwysleisiodd yr Arweinydd ei chred fod hwn yn Gyngor rhagorol ond roedd gwir angen pwyso'r botwm ailosod a dechrau pennod newydd yn hanes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac roedd hi'n edrych ymlaen at weithio gyda phawb er mwyn cyflawni hyn.

## 7. COFNODION – Y CYNGOR – 19 TACHWEDD 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo COFNODION y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd (cofnod rhifau 1-15) fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Maer.

## 8. I DDERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN E10 (2)

Gofyn i Arweinydd y Cyngor ddiffinio'r mesurau mewn perthynas â chydweithio â Chynghorwyr y gwrthbleidiau a’r meinciau cefn wrth symud materion ymlaen o ran Tîm Caerffili, a sut y mae'r Arweinydd yn bwriadu gwneud Pwyllgorau Craffu yn fwy heriol ac effeithiol wrth ddelio â materion sy'n peri pryder i'n trigolion, ac a fydd yr Arweinydd yn gwneud datganiad ar yr ymagwedd weithio newydd gydag amserlen a chynllun gweithredu.

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd P. Marsden

Gynghorydd Etheridge roeddwn i'n meddwl tybed ai’r rheswm eich bod yn gofyn y cwestiynau hyn i mi oedd oherwydd eich bod chi'n teimlo'n aneffeithiol ac yn ddiangen fel Cynghorydd?

Gynghorydd Etheridge rydych chi wedi gofyn i mi a allwn i ddiffinio mesurau lle gall yr gwrthbleidiau weithio gyda'i gilydd ac a wnaf i gynnig ffordd o wneud craffu yn fwy heriol ac effeithiol. Wel, ers blynyddoedd lawer rydym wedi gweithio mewn ffordd deg a chytbwys, yn y modd y mae gan bwyllgorau craffu a grwpiau gorchwyl a gorffen gydbwysedd rhagnodedig o aelodau'r blaid sy'n rheoli ac aelodau grwpiau’r gwrthbleidiau, felly a ydych chi'n amlwg yn gofyn i'ch grŵp gael mwy o fewnbwn i'r pwyllgorau hyn.

Gan fod y Grŵp Annibynnol ar hyn o bryd yn ymatal rhag swyddi a gynigir gan y ffordd bresennol o weithio, wrth wrthod ymgymryd â swyddi ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwastraff, Cynllunio a'r Pwyllgor Disgyblu. Mae’n rhaid i mi ddweud fy mod yn ei chael hi'n rhyfedd iawn eich bod chi’n gofyn am fwy o ran

mewn democratiaeth pan fod eich Grŵp yn methu â chymryd rhan ynddo yn gyson ar hyn o bryd.

Cwestiwn Atodol gan y Cyng K. Etheridge.

Yn aneffeithiol fel Cynghorydd, mewn ffordd deg a chytbwys, a gaf i ofyn i'r Arweinydd pam iddi yn ei Chabinet anwybyddu'r ddeiseb gyda 5700 o enwau arni gan Breswylwyr Hamdden Pontllanfraith ac iddynt anwybyddu'r ddeiseb gyda 3000 o enwau arni ar gau'r toiledau cyhoeddus. A gaf i ofyn i'r Arweinydd gyfeirio at y bennod newydd Pwrpas a Chyfarwyddyd a Rennir ac rwy'n siŵr y byddai hi'n cymryd ymagwedd o weithio'n fwy mewn partneriaeth gyda'r holl Gynghorwyr wrth yrru Caerffili ymlaen. A all hi gadarnhau sut y cyflawnir hyn gan ei bod wedi penderfynu peidio â gwneud gwelliant i'r Cabinet?

Sylwer os gwelwch yn dda ar gywiriad i Ddatganiad yr Arweinydd gan fod y Grŵp Annibynnol wedi cymryd eu lle ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd P. Marsden

Mewn perthynas â'r ddeiseb ac ati, credaf y gwelwch ein bod wedi atal cau Canolfan Hamdden Pontllanfraith, mi wnaethon ni wrando ar y cyhoedd. Mae'n ddrwg gen i na wnes i ddal yr holl bethau eraill yr oeddech yn siarad amdanynt yn eich cwestiwn Gynghorydd Etheridge, oherwydd yn amlwg roedd cryn dipyn yn hynny i gyd. Felly dyna'r cyfan yr wyf yn mynd i'w ddweud, rydym wedi gwrando ar y cyhoedd ac ar un achlysur rydym wedi stopio ac atal cau Canolfan Hamdden Pontllanfraith.

**9. CYNLLUN LLEIHAU'R DRETH GYNGOR 2020/21**

Cyhoeddodd y Cynghorydd D. Cushing fuddiant personol a rhagfarnus i'r graddau ei bod wedi gwneud cais yn ddiweddar am ostyngiad o dan y cynllun ac y gallai o bosibl elwa ohono felly gadawodd y Siambr pan drafodwyd y mater.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ynghyd â'r gwahaniaethau lleol y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

Ar ôl ystyried ei gynnwys yn llawn ac am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad y Swyddog, symudwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad ynddo a chytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy'r system bleidleisio electronig.

> PENDERFYNWYD bod y Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor cyfredol yn parhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ynghyd â'r disgresiwn lleol y cytunwyd arno yn flaenorol.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd ac a gefnogwyd yn unfrydol gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gyfarfod ar 22 Hydref 2019.

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu crynodeb o effeithiolrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ddinasyddion. Yn dilyn fformat a ragnodwyd gan AGC mae'n nodi sut yr aethpwyd i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 ac yn rhestru'r blaenoriaethau ar gyfer 2018-19 ynghyd â gwybodaeth gymharol ar gyfer 2017/18 a 2016/17.

Pwysleisiwyd yr heriau mewn perthynas â gweithio rhanbarthol a nodwyd eu bod yn dod yn rhai arwyddocaol i adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Hysbyswyd y Cyngor bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn 'gerbydau o ddewis' i Lywodraeth Cymru wrth

weithredu newidiadau polisi ac fel derbynwyr cyllid grant i gynorthwyo partneriaid i weithredu'r newidiadau hyn. Mae'r gwaith rhanbarthol hwn yn dod yn fwyfwy dwys a llafurus ac yn gosod heriau o ran ymgysylltu gydag aelodau etholedig cyn gweithredu modelau darparu gwasanaeth newydd. Hysbyswyd yr aelodau bod adroddiad ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Ngwent a sut y mae'n effeithio ar Gaerffili wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Chwefror 2020.

Amlinellwyd y cyflawniadau allweddol ac amlinellwyd blaenoriaethau ac oedd yn cynnwys datblygu Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol, agor ail Gartref Plant, datblygu gwasanaethau i ofalwyr i'w cefnogi yn eu rôl ofalu, sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain fel gofalwyr. Byddai recriwtio o fewn y Gwasanaethau Plant yn parhau i gael ei fonitro, ond mae cyflwyno taliadau ychwanegol y farchnad wedi helpu gyda recriwtio a chadw staff. Byddai blaenoriaethau eraill yn cynnwys ehangu'r model rhyddhau i gael mynediad yn yr ysbyty lleol, cyllid ar gyfer trydydd Cartref Plant a datblygiad parhaus Hybiau Cymunedol, Partneriaeth Plant Gwent a Gofal Dementia.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a chadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Pwyllgor wedi mynegi pryder sylweddol mewn perthynas â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan fod diffyg democrataidd clir a diffyg goruchwyliaeth lwyr o ran gwneud penderfyniadau.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol mai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd y cerbyd yr oedd Llywodraeth Cymru yn dymuno ei ddefnyddio ac eglurodd fod pum Aelod Cabinet Cyffredinol dros Iechyd ar y Bwrdd a rhoddodd sicrwydd fel un o'r Aelodau hyn y byddai bob amser yn rhoi buddiannau Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gyntaf. Er nad oedd yn gyfrwng o ddewis CBSC, roedd yn darparu platfform i ddefnyddio gwariant arian grant mewn ffrâm amser fer.

Roedd y ffordd orau o gyflawni goruchwyliaeth o dan ystyriaeth ac er y byddai'n hawdd sicrhau craffu ar ôl penderfyniad, yr her fwyaf fyddai sut i sicrhau craffu cyn penderfyniad oherwydd yr amserlenni perthnasol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai sgwrs oedd hon y byddai'n fwy na pharod i'w chael gyda Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cadarnhaodd Aelod ei fwriad i fynychu Craffu ar 4 Chwefror 2020 gan ei fod yn rhannu'r pryderon a godwyd yn benodol ynghylch a oedd y Bwrdd yn addas at y diben, yn darparu gwerth am arian a'i ddiffyg atebolrwydd. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Bwrdd wedi bod yn achubiaeth o ran galluogi darparu gwasanaethau ac na fyddai llawer iawn o waith cydweithredol wedi bod yn bosibl heb ei gyllid. Er ei fod yn cytuno â'r pryderon mewn perthynas â llywodraethiant y Bwrdd, sicrhaodd yr Aelodau unwaith eto y byddai'n mynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau y byddai o fudd parhaus i bobl Caerffili.

Holodd yr Aelodau pa mor bell i ffwrdd oeddem o sicrhau cyflenwad llawn o Ofalwyr Maeth a Gweithwyr Cymdeithasol ac fe'i hysbyswyd bod ymdrechion wedi'u gwneud i gynyddu niferoedd Gofalwyr Maeth a bod recriwtio yn parhau. Mewn perthynas â Gweithwyr Cymdeithasol Gwasanaethau Plant, roedd cyflwyno taliadau ychwanegol y farchnad wedi gwneud gwahaniaeth ond roedd llawer o gyflogaeth amgen yn y maes hwn felly byddai'n cael ei fonitro'n barhaus.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r cynnydd mewn oedi wrth drosglwyddo gofal, canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth is 6 mis yn ddiweddarach, a'r cynnydd yng nghanran y plant a ailgofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Esboniwyd bod pobl o flwyddyn i flwyddyn yn cyflwyno gydag anghenion cynyddol gymhleth ac er bod perfformiad wedi gwella mae'r achosion cymhleth cynyddol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pecynnau gofal priodol gael eu rhoi ar waith cyn eu rhyddhau. Er bod ystyriaeth yn

cael ei rhoi i bwysau ar y GIG mae'n rhaid i unrhyw ryddhau gael ei wneud mewn modd diogel. Roedd y ddarpariaeth ailalluogi wedi'i newid o fod yn un wedi'i thargedu i ymagwedd fwy cyffredinol, sydd wedi bwrw'r rhwyd yn ehangach ac felly mae'r nifer sy'n cael cefnogaeth wedi cynyddu.

O ran y Gofrestr Amddiffyn Plant, nodwyd unwaith eto bod achosion yn dod yn gynyddol gymhleth eu natur ond bod Caerffili wedi perfformio'n dda ac yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan bob plentyn unigol y lleoliad gorau i ddiwallu ei anghenion penodol.

Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i waith rhagorol Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni.

Yna cyfeiriwyd at agor ail Gartref Plant a'r cynlluniau ar gyfer trydydd cartref a holwyd beth oedd y rheswm am y symud yn ôl i adeiladu cartrefi.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid cyfalaf ar gael ar gyfer mwy o ddarpariaeth fewnol er mwyn ehangu yn y sir ac mewn lleoliadau sirol a bod yr uchelgais hon yn un a rennir gan Fwrdeistref Sirol Caerffili.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd ac na fyddai unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch plant trwy ddod â lleoliad yn fewnol. Nodwyd bod lleoliadau yn aml yn cael eu gorchymyn gan y llys ac felly y dylid cadw atynt yn gaeth, ond mewn achosion lle mae angen lleoliad mewn argyfwng byddai'r ddarpariaeth fewnol hon yn ased hanfodol ac yn darparu lle diogel yn lleol i blentyn.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai diogelwch unrhyw blentyn yn cael ei beryglu oherwydd costau. Byddai diwallu anghenion y plentyn unigol a sicrhau ei ddiogelwch bob amser yn brif flaenoriaeth. Mae'r galw am lety i blant ag anghenion cymhleth lle nad yw gofal mabwysiadu neu faeth yn bosibl wedi bod yn uwch na'r ddarpariaeth a bu dibyniaeth ar y sector preifat i ddiwallu'r angen hwnnw. Mae Caerffili am gael gwell cydbwysedd o ran darpariaeth fewnol, fodd bynnag, pe bai anghenion y plentyn yn gofyn am leoliad allanol am ba reswm bynnag, i fod yn agosach at y teulu neu am resymau diogelwch yna byddai'r lleoliad hwnnw'n cael ei ddarparu. Gan ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymdeithasol yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ei fabwysiadu a chytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy'r system bleidleisio electronig.

> PENDERFYNWYD y dylid mabwysiadu Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19.

**DERBYN A NODI'R EITEM ER GWYBODAETH CANLYNOL O DAN REOL GWEITHDREFN 16.2 (B)**

**11. CYFEDDIANNU EIDDO PRESWYL (EITEM BRYS CABINET 27 TACHWEDD 2019)**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor am unrhyw benderfyniad sy'n cael ei roi ar frys gerbron y Cabinet, gan roi'r rhesymau paham ei fod yn fater brys ac felly fe'i cyflwynir i'r Aelodau i'w nodi.

Nododd y Cyngor yr adroddiad a'r rhesymau paham ei fod yn fater brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30pm

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw welliannau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2020 fe'u llofnodwyd gan y Maer.

____________________________

MAER